**DATGANIAD NEWYDDION**

**26ain Mai 2025**

# DYFODOL I'R IAITH YN BEIRNIADU CYHOEDDIAD LLYWODRAETH CYMRU AM ACADEMI SEREN

Mae Dyfodol i'r Iaith wedi beirniadu cynllun newydd Academi Seren Llywodraeth Cymru. Dyma ddatganiad y Gweinidog Addysg:

"*Rwy'n falch o gyhoeddi model cyflenwi newydd a gwell ar gyfer Academi Seren. Mae'r dull diwygiedig hwn yn adeiladu ar yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu dros ddeng mlynedd cyntaf Seren ac yn seiliedig ar yr arferion gorau yn ein canolfannau. Bydd yn cynnwys tîm cyflenwi gyda chwe rheolwr cyflenwi llawnamser a fydd yn gweithio ar sail ranbarthol. Yn ogystal, byddwn yn datblygu pecyn cymorth cynhwysfawr i ysgolion i ddarparu'r amser a'r lle i athrawon gefnogi eu dysgwyr Seren, gyda chyllid, arweiniad, adnoddau a chefnogaeth gan eu rheolwr cyflenwi penodedig.*"

Dros gyfnod o 5 mlynedd mae Academi Seren wedi costio dros £11 miliwn o bunnau i'r pwrs cyhoeddus ac wedi arwain at sefyllfa lle mae 70% o holl ddisgyblion ysgol sydd wedi ymrestru gydag Academi Seren yn mynd i Brifysgolion y tu hwnt i Gymru, yn bennaf i Loegr. Faint yn fwy, felly, fydd cost y cynllun newydd, ac onid yw'n anochel y bydd mwy fyth o ddisgyblion disgleiriaf Cymru yn gadael eu gwlad?

Tra bo'r mwyafrif o gynlluniau addysgol Llywodraeth Cymru wedi wynebu toriadau, cwtogiadau a chyfyngiadau sylweddol ar ddarpariaeth a dewis cyrsiau, mae Academi Seren yn bwrw ymlaen ac yn ehangu, fel pe bai'n gwbl ddall i'r cyd-destun ehangach. Mae sefyllfa argyfyngus ein Prifysgolion yng Nghymru yn gwbl hysbys, ond mae'n ymddangos nad yw'r angen am gydbwysedd, cyfrifoldeb, nac ystyriaeth i anghenion Cymru a'i myfyrwyr yn rhan o'r darlun bellach. Sut mewn difrif mae modd cynllunio gweithlu dyfodol Cymru na gwireddu Cymraeg 2050 tra atgyfnerthir cynllun sy'n arwain at y fath allfudo o dalent ifanc o Gymru? Sut all y Llywodraeth Cymru honni fod hyn yn gwarchod, diogelu ac atgyfnerthu buddiannau'r wlad?

Meddai Dylan Bryn Roberts, Prif Weithredwr Dyfodol i'r Iaith'

"*Yn ôl ffigyrau Llywodraeth Cymru ei hunan, mae cyfanswm gwariant cyhoeddus ar Academi Seren dros y pum mlynedd olaf tua £11,766,054. Nid oes ychwaith unrhyw gap ar wariant y Cynllun nac ar ganran y disgyblion arno sy'n dewis gadael Cymru. I goroni'r cwbl, nid yw'r Llywodraeth yn gwybod faint o'r myfyrwyr hyn sy'n dychwelyd i Gymru gan nad ydynt yn monitro'r Cynllun. Yn sgil y datganiad hwn, mae'n ymddangos bod Prifysgolion Cymru, y Gymraeg, a'r myfyrwyr eu hunain yn cael eu sathru yn ôl y galw am ragoriaeth elît ac addysg Prifysgol y tu hwnt i Gymru, heb ddigon o ystyriaeth i anghenion lleol na'r weledigaeth genedlaethol ar gyfer addysg uwch. Mae'r anghydbwysedd yn peri gofid, mae'n awgrymu bod rhai mentrau fel Academi Seren 'uwchlaw' beirniadaeth tra bod y rhelyw yn cael eu hesgeuluso'n llwyr a'u hamddifadu o arian sy'n cael ei gyfeirio o'r newydd i Academi Seren. Dylai hyn oll beri inni ofyn: pwy yn union y mae'r Cynllun hwn yn ei wasanaethu, a beth yw'r pris gwirioneddol i Gymru, y Gymraeg ac i Brifysgolion Cymru?*

*Mae'r Alban yn cyfrannu 100% tuag at gostau eu myfyrwyr sy'n astudio yn yr Alban, ac mae 93% o'u myfyrwyr yn aros yn y wlad honno ar gyfer addysg Prifysgol. Mae Gogledd Iwerddon yn cyfrannu 50% o gostau myfyrwyr sy'n aros yn eu talaith, ac mae 75% o fyfyrwyr yn aros yno. 60% yw'r ffigwr cyfatebol i Gymru. Nid yw Cymru'n gwahaniaethu'n ariannol rhwng disgyblion sy'n aros yng Nghymru a rhai sy'n gadael y wlad, ac mae'n un o'r ffactorau allweddol sy'n annog yr allfudo. Pam fod Academi Seren yn parhau i annog myfyrwyr i fynd i Brifysgolion grŵp Russell, sydd ag 20 prifysgol yn Lloegr, 2 yn yr Alban ac 1 yng Ngogledd Iwerddon? Yr unig brifysgol yng Nghymru sy'n aelod o Grŵp Russell yw Caerdydd.*"

Rydym wedi llythyru â Lynne Neagle, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn Llywodraeth Cymru, gyda chyfres o gwestiynau gan gynnwys sut mae'r cynllun model newydd yn cefnogi Prifysgolion Cymru, sut mae'n cyfrannu at gynyddu nifer athrawon Cymraeg a chyfrwng Cymraeg yn wyneb yr argyfwng gweithlu a safonau PISA ym myd addysg, a sut mae'n cryfhau nod ac amcanion y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae gwir angen dargyfeirio blaenoriaethau'r cynllun i wella safonau addysg disgyblion difreintiedig a'u hannog i astudio yng Nghymru. Mae angen hyrwyddo cyrsiau Prifysgolion Cymru sy'n cynnig cyfleoedd ar lefel genedlaethol a rhyngwladol llawn cystal â chyrsiau prifysgolion tu hwnt i Gymru. Trwy dargedu disgyblion yn syth ar ôl cychwyn yn yr Ysgol Uwchradd, mae Academi Seren yn creu meddylfryd y dylai'r disgyblion disgleiriaf adael Cymru i gael yr addysg prifysgol gorau. Pa fath o neges yw hynny, os mai nod datganoli yw creu cenedl fodern ddwyieithog?

Yn y pen draw, rydyn ni'n dymuno gweld system addysg iach yng Nghymru, lle mae ein prifysgolion yn gallu elwa o'r gwaith mawr ledled ysgolion y wlad, a hyn yn ei dro'n cyfrannu at lewyrch y Gymraeg. Mae'n gwbl amlwg bellach nad dyna yw gweledigaeth Llywodraeth Lafur Cymru.

Rydym felly yn galw am drafodaeth frys ar lawr y Senedd i drafod priodoldeb gwario mwy o arian prin ar weinyddiad cynllun sydd eisoes mor gostus a niweidiol i Gymru.

- DIWEDD –

**Linc i ddatganiad llawn Llywodraeth Cymru:**
**[Datganiad Ysgrifenedig: Model cyflenwi ar gyfer Academi Seren (22 Mai 2025) | LLYW.CYMRU]**

**Linc i Grŵp Russell:**
**https://www.russellgroup.ac.uk/our-universities**

**Am fanylion pellach cysylltwch â Dylan Bryn Roberts, Prif Weithredwr Dyfodol i'r Iaith ar 07989393445 neu dylanbryn@dyfodol.net neu Heini Gruffudd, Cadeirydd, 07983 506805, heini@gruffudd.org**